# Cofnodion 11eg cyfarfod Grŵp Dŵr Croyw CGBC

a gynhaliwyd yn Nhŷ Cambria, Caerdydd am 11:00
ddydd Llun 18 Tachwedd 2013

**Yn bresennol:**
Tristan Hatton-Ellis (THE) Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) (Telegynadledda)
Huw Jones (HJ) CNC
Janet Buckles (JB) CNC
Pascal Nicolet (PN) Freshwater Habitats Trust (Telegynadledda)
Dai Roberts (DR)
Barbara Spence (BS) CNC
Dusi Thomas (DT) Dŵr Cymru
Adrian Lloyd Jones (ALlJ) Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
Kris Roberts (KR) Cyngor Torfaen, CGBLlau
Kyle Young (KY) CNC
Nick Bialynicki Birula (NB)

**Ymddiheuriadau:**
Robin Woodyatt
Steve Ormerod
Emma Guy
Isabelle Durance
Julian Jones

**1. Croeso a chyflwyniadau**
Ymunodd THE a PN â'r cyfarfod trwy system telegynadledda.

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**
**10.4.** Stuart Croft, nid Stuart Cross, yw'r person cyswllt ar gyfer pryfed gwellt
**Cam gweithredu: JB** i ddiwygio drafft terfynol y cofnodion

**10.5. Adroddiad Monitro Llynnoedd**
**Cam heb ei gymryd: THE** i'w anfon at **JB** i gael ei gylchredeg.

**10.6. Adrodd ar Erthygl 17**
Cwblhawyd y gwaith adrodd ar gyfer eleni.

**10.7. Diweddariad ar y Canllawiau Coedwigoedd a Dŵr**
Wedi'u cymeradwyo ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban ac Iwerddon, i'w cyhoeddi ym mis Ionawr 2014. Hefyd mae canllawiau a mapiau sy'n dangos ardaloedd sensitif i asid yng Nghymru, lle mae coetiroedd yn briodol.
**Cam gweithredu: BS** i anfon e-bost at **DT.**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf yn amodol ar y diwygiad (gweler 10.4).

**Cam gweithredu:** **JB** i anfon copi at Sean McHugh i gael ei lanlwytho i wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

**3. Diweddariad Cadeiryddion y Grwpiau Ecosystemau (THE)**

**3.1. Cais i gynhyrchu rhaglen waith**.

**Cam gweithredu:** **Pawb** i anfon awgrymiadau am flaenoriaethau at **THE**
**THE** i gynhyrchu canllawiau ar gyfer pob dull rheoli ar lefel yr ecosystem.

**3.2. Mapio blaenoriaethau**

Amlinellu mapiau blaenoriaeth ar gyfer rhai ardaloedd er mwyn llywio prosiectau e.e. gwydnwch ecosystemau

**3.3. Tudalen we Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**

Angen ei diweddaru

**Cam gweithredu:** **Pawb** i edrych ar y wefan ac anfon awgrymiadau am eitemau a dolenni at JB.
**JB** i'w cydgasglu a'u cylchredeg.

**3.4. Aelodaeth y grŵp**

- o Adolygu, diweddaru ac anfon at Medwyn Roberts.
- o Gwahoddwyd Kyle Young i ymuno â'r grŵp fel aelod academaidd.

**3.5. Y Gyfarwyddeb Rhywogaethau Estron**

- Trafododd grŵp aelodau ym Manceinion y ddeddfwriaeth ddrafft.
- Y rheoliad yn destun ymgynghoriad ymysg yr aelod-wladwriaethau. Dylai strategaeth Prydain Fawr ar rywogaethau goresgynnol ymdrin â'r rhan fwyaf o hyn.
- Mae'n canolbwyntio ar rywogaethau sydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd h.y. rhywogaethau sy'n debygol o fod yn oresgynnol ond nad ydynt yn bresennol ar hyn o bryd. Nid yw'n ymdrin â rhywogaethau yn yr aelod-wladwriaethau ond mae asesiad risg wedi'i gynnwys.
- Cwestiynau:
  - o Sut fydd rhywogaethau'n cael eu dewis i'w rhestru?
  - o Faint fydd yn cael eu rhestru (50 ar y mwyaf?)?
  - o Sut fydd rhywogaethau newydd yn cael eu hychwanegu (a fydd angen tynnu rhywogaethau eraill oddi arni)?
  - o DEFRA sy'n arwain y trafodaethau presennol
  - o Ni ddisgwylir gweithrediad llawn tan 2015.
  - o Ystyrir hon yn ffordd o ffurfioli rheoliadau ar gyfer rhywogaethau goresgynnol.

**4. Ynni hydrodrydanol (YHD)**

**4.1.** Rhoddodd **KY** gyflwyniad yn esbonio'r datblygiadau diweddaraf.

**4.2** Roedd y drafodaeth wedyn yn cynnwys y pwyntiau canlynol:

- Disgwylir canllawiau gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2014 i gynnwys canllawiau canolog a nodiadau canllaw. Bydd y rhain yn newid cyn y

rhoddir eu gwedd derfynol arnynt, gobeithio ar ôl iddynt gael eu hadolygu.

- Mae'r rheoliadau yn cefnogi cynlluniau bach ar ben dalgylchoedd.
- Mae fframwaith ELON ar gyfer rheoli gwaith tynnu dŵr yn cynnwys addasu llif, hydroleg, proses gymdeithasol a biofonitro.
- Safonau lliniaru dangosol ar gyfer Parthau 1, 2 a 3. A fydd cynlluniau yn y gymuned ar dir Llywodraeth Cymru yn cael eu trin fel Parth 1 neu fel gweddill Cymru?
- Ni all datgomisiynu fod yn orfodol.
- A gaiff y dadansoddiad cost a budd ei ddefnyddio'n unigol?(DR)
- Nid oes unrhyw fanteision o ran cost a budd ar hyn o bryd i gynlluniau sy'n cystadlu.
- Dyletswydd ar gyfer dull rheoli ar lefel yr ecosystem, mae'r nodiadau cyfredol wedi cael eu trosi ar gyfer ynni dŵr, ond rhai gwrthdrawiadau cyfreithiol a gwyddonol yn amlwg (KY). Cwestiynau at KY, Natalie Hall, Sian Rowlands, Gideon Carpenter neu Louis Pilkington.
- Papur y bwrdd ar gael ar lein, mae'r panel cyswllt ynni dŵr wedi gweld deunydd arall ar gyfer ymgynghori mewnol.
- Dylid gwneud y broses ymgeisio'n haws i'r ymgeiswyr.
- Mae cynlluniau YHD yn debygol o gael effaith anghymesur ar gynefinoedd blaenddwr â blaenoriaeth y CGB. Os angen canllawiau i liniaru'r effaith?
- Mae asesu ar gyfer effeithiau cronnol yn heriol, mae nodiadau canllaw ar gael, ond maent yn canolbwyntio ar ddeddfwriaeth. Gellid lleihau'r effeithiau cymaint ag sy'n bosibl ar lefel safle ond mae'n anodd eu meintoli ar raddfa dalgylch.
- Ceir awgrym y bydd gwaith monitro'n cael ei gydgysylltu o Aberystwyth. Mae'n bosibl y bydd yn cynnwys casglu data cyn ac ar ôl y cynllun ac yn targedu cynlluniau unigol.
- Mae'n bosibl y bydd yn asesu effeithiau mewn amrywiaeth o amgylchiadau ac yn meithrin partneriaethau gydag Ymddiriedolaethau Natur ac Ymddiriedolaethau Afonydd.

**5. Prosiectau a Chyllid Bioamrywiaeth**

**5.1. Y Gronfa Ecosystemau Gwydn**

- Mae'r gronfa yn ei 3edd/4edd blwyddyn. Mae ALlJ, HJ a THE wedi cymryd rhan yn y trafodaethau.
- Cynigiwyd pum prosiect, mae dau o'r rhain yn cael eu hariannu'n uniongyrchol. Mae prosiectau Ymddiriedolaeth Afon Hafren a'r Freshwater Habitats Trust (Pond Conservation cynt) ar y gweill.
- Mae prosiect Sefydliad Gwy ac Wysg yn cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru.
- Mynegwyd pryderon ynghylch diffyg eglurder o ran disgwyliadau.
- Mae cynyddu'r gyllideb ac effeithiolrwydd wrth gyflenwi wedi cael eu cynllunio yn y rhaglen gyffredinol ac mae'n bosibl y gallent gael eu gwneud yn barhaol.
- Mae'n debygol y bydd yr arian ar gael eto y flwyddyn nesaf felly gellid paratoi cynlluniau ar gyfer Ebill/Mai 2014.

**5.2. Cyllid Llywodraeth Cymru**

- Cyhoeddwyd cyllid gwerth £6 miliwn yn Sioe Frenhinol Cymru, mewn ymateb i adroddiad Sefyllfa Byd Natur. Bydd ar gael dros y ddwy flwyddyn nesaf ar gyfer prosiectau tirwedd.
- Mae gwybodaeth wedi cael ei chylchredeg ynghylch tri gweithdy (un yng Nghyffordd Llandudno, un ym Merthyr ac un yn Aberystwyth). Mae rhai o aelodau'r GARh eisoes wedi cadw lle yng ngweithdy Llandudno. Mae angen gwirfoddolwyr i fynd i weithdai Aberystwyth a Merthyr.
- Cysylltiadau â'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem i gyflawni canlyniadau bioamrywiaeth da â sail gadarn, yn hunangynhaliol o ddewis, a gyda phwyslais ar swyddi a gwerthoedd cymunedol.

**5.3. Diweddariad ar brosiect Perlau mewn Perygl (HJ)**

- Mae Elain Gwilym (Swyddog Prosiect) a Tim Roberts (Swyddog Monitro) yn eu swyddi ar hyn o bryd.
- Mae'r camau gweithredu sy'n parhau'n cynnwys gosod ffensys ac adfer cynefinoedd.
- Mae £600,000 ar gael hyd fis Medi 2016
- Mae pedair poblogaeth o fisglen berlog yr afon yn hyfyw ar hyn o bryd ond nid ydynt yn ailgyflenwi. Mae tair ohonynt yng ngogledd-orllewin Cymru ac un yn afon Gwy
- Gellid trosglwyddo rhai anifeiliaid i nentydd glanach, ond byddai'n anodd dod o hyd i nentydd â graddiant, lefelau ynni a sefydlogrwydd graean addas.
- Mae'n bosibl y gellid cynnal gwaith monitro rhydocs ar afon Dwyryd a symud y misglod i fyny'r afon.
- Mae misglod ifanc yn agored iawn i niwed am o leiaf 10 mlynedd gyntaf oedolaeth, yn enwedig oddi wrth gyfoethogi gan ffosffadau ar ôl llwyrgwympo.

**5.4 Diweddariad ar ailgyflwyno afancod (ALlJ)**

- Afon Rheidol yw'r prif ddewis ar gyfer ailgyflwyno ar hyn o bryd, ond mae rhywfaint o wrthwynebiad ymysg tirfeddianwyr a thrigolion lleol. Fodd bynnag, mae un ffermwr yn gadarnhaol ac mae wedi cynnig tir i'w rhyddhau.
- Cafwyd rhywfaint o ymgynghori. Mae ALlJ wedi rhoi cyflwyniadau i gymuned Capel Bangor ac i gymdeithas genweirwyr Aberystwyth.
- Efallai y bydd modd cytuno i'w rhyddhau ymhellach i fyny'r dalgylch o'r safle rhyddhau arfaethedig presennol.
- Edrychwyd ar safleoedd arall e.e. Pen Llŷn, sydd â choetir helyg gwlyb heb ei reoli a'r posibilrwydd o ledaenu mewn ardal y mae mynyddoedd Eryri yn cyfyngu arni.
- Bydd yr ail-gyflwyniad cyntaf yn debygol o ddenu arian gan drydydd partïon.
- £350,000 y flwyddyn yw'r amcangyfrif ceidwadol o'r buddion twristiaeth ar afon Rheidiol.

- Cynhelir cyfarfod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr i drafod cynlluniau yn y dyfodol ar gyfer afon Rheidol. Hefyd angen cyflwyniad i gyfarwyddwyr CNC a'r Gweinidog.
- Mae CNC yn berchen ar dir ar lannau afon Rheidol a fyddai'n addas ar gyfer plannu helyg. Hefyd yn gorgyffwrdd â Phrosiect Pumlumon Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn.
- Mae angen canllawiau ar gyfer tynnu argaeau afancod, dylent fod ar gael cyn rhyddhau anifeiliaid. Angen hyfforddi staff a gwirfoddolwyr.
- Mae ALlJ wedi gofyn am ail gyfarfod gyda chymdeithas genweirwyr Aberystwyth i drafod yr angen posibl i dynnu argaeau.
- Mae dalgylch afon Rheidol yn ardal gyfyngedig. Byddai lledaeniad yr anifeiliaid yn haws ar Ben Llŷn neu ar Ynys Môn ac mae llai o fuddiannau pysgota.
- Mae angen trafod y problemau posibl pe câi afanc ei ladd. Ar hyn o bryd, gallai'r llywodraeth gael ei herlyn o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd, ond nid unigolion, gan nad yw'r afanc wedi'i gynnwys yn y ddeddfwriaeth bresennol ar gynefinoedd/rhywogaethau.

## 6. Tystiolaeth Dŵr Croyw

### 6.1. Offer Siltio

- Wedi'u haddasu ar gyfer y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, effeithiau ar infertebratau a chymunedau.
- Angen meintioli effeithiau, canran y mynegai tebygolrwydd.
- Effeithiau ar rywogaethau sy'n sensitif i silt, ychwanegu at becynnau RIVPACS. Yn berthnasol i safleoedd yr iseldir â lefelau uchel o ddyddodiad silt, yn fwy perthnasol i dir âr ar raddfa fawr yn Lloegr, yn celu'r broblem yng Nghymru.
- Datblygwyd yr offeryn gan Q May/Defra. Gallai fod yn well i ffermydd â da byw, pwyslais ar ffracsiwn organig silt.
- Bydd y cylch nesaf o waith rheoli basnau afonydd yn 2021, yn rhy hwyr i'r cylch presennol. Nid yw'r mapiau cyfredol yn dangos siltio.
- Contractiwyd Ian Kileen i gymryd darlleniadau rhydocs ar gyfer misglen berlog yr afon, ond nid yw'r dechneg yn cael ei derbyn gan bawb. Mae prosiect LIFE yn cymharu â'r samplu infertebratau cyffredinol.

**Cam gweithredu:** **THE** i gysylltu â Chris? ac Iwan? a ddaeth i'r cyfarfod yr wythnos ddiwethaf.

### 6.2 Dŵr Croyw a'r Newid yn yr Hinsawdd:

Trafodwyd dau brosiect mewn cyfarfod pythefnos yn ôl:
**Keeping Rivers Cool:** Gwaith dilynol i ymchwil Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth i astudio effeithiau cysgodiad ar gymunedau infertebratau a lliniaru. Y dalgylchoedd peilot yw afon Lune, Avon (Hampshire) ac afon Gwy, ond 'collwyd' y gwaith ar y rhan o afon Gwy yng Nghymru.
**Diweddaru:**

- Cymharu afonydd a llynnoedd ar raddfeydd gwahanol ar draws Ewrop a rhagweld newidiadau dros y 60-70 blwyddyn nesaf.
- Coridorau glannau nentydd
- Clustogi a lleihau llif a llwythiadau maetholion mewn afonydd.
- Effeithiau dros dro cysgodiad (Sbaen).
- Straen sychder, trothwyon ac oeri hyd at 10°C.

**Cam gweithredu: THE** i gylchredeg dolen i'r drafodaeth a'r ymatebion ar y wefan.

Gall argaeau afancod gael effaith cynhesu oherwydd cwympo coed, ond gall achosi oeri afonydd hefyd. Mae'r astudiaeth yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw effaith gyffredinol (ALlJ).

**6.3. Taenlen dystiolaeth/Cadeiryddion y Grwpiau Ecosystemau**

- Mae trafodaeth wedi cael ei chynnal ar ddiben y daenlen dystiolaeth a phwy ddylai ei chynnal/defnyddio. Mae Tracey Lovering wedi gofyn am i rai ymadroddion gael eu newid ac am i rai colofnau gael eu hychwanegu.
- Mae angen diweddaru prosiectau arfaethedig ar y daenlen, ond dylid hefyd rhoi ystyriaeth i berthnasedd y prosiectau.
- Mae angen ystyried pa gamau gweithredu allai ddenu mwy o ddiddordeb academaidd, a ddylid ychwanegu prosiectau newydd?
- Defnyddiwyd enghreifftiau dŵr croyw yng nghyfarfod diweddaraf Cadeiryddion y Grwpiau Ecosystemau, ond mae angen ychwanegu rhai manylion.
- Awgrymwyd y gellid cyfuno astudiaethau dŵr croyw gyda grwpiau ecosystemau eraill e.e. rheoli adnoddau dŵr lefel dalgylch. (ALlJ)
- Mae'r grŵp yn nodi anghenion e.e. cysylltiadau gyda'r grŵp ffermdir caeedig. (THE)
- Gofynnodd BS a oedd colofn 'dilyn i fyny' ar y daenlen i gofnodi canlyniadau.
- Gofynnodd DT ai diben y daenlen yw cofnodi prosiectau'n unig, neu a oes elfen o flaenoriaethu.
- Dylid gofyn am gynigion prosiectau i lenwi bylchau tystiolaeth oddi wrth academyddion a gallai hyn gynnig manteision i geisiadau am gyllid academaidd. (THE).
- Mae angen mecanwaith ar gyfer diweddariadau posibl.
- Mae'n bosibl y bydd yn fuddiol codi proffil y daenlen yng Nghymru (e.e. Cyngor Cynghori ar Wyddoniaeth Cymru) a'r tu hwnt.

**Cam gweithredu:** **Pawb** i edrych ar y daenlen, gweithredu'r canlynol, bwydo'n ôl i Tracey Lovering ac anfon copi at THE:

- Adolygu perthnasedd eu prosiectau eu hun a'u diweddaru.
- Edrych ar gynigion eraill yn y grŵp Dŵr Croyw.
- Edrych ar gynigion eraill oddi wrth grwpiau ecosystemau/rhywogaethau eraill a ffyrdd o gynyddu'r mewnbwn o ran dŵr croyw.

**6.4. Gwefan y Bartneriaeth Bioamrywiaeth**

- Gellid cyfnewid gwybodaeth am ecoleg dŵr croyw ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau, gan gynnwys rhywogaethau llai adnabyddus.
- Mae THE wedi cysylltu ag un awdur i gael gwybodaeth ecolegol am *potomanthus*.

**Cam gweithredu: Pawb** i edrych ar y wefan ac anfon sylwadau at THE.

**7. Newidiadau mewnol yn Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)**

- Strwythurau: Ar hyn o bryd, mae 7 cyfarwyddiaeth, gyda gwahanol haenau o reolwyr wedi'u penodi.
- Ardaloedd: Y cynllun presennol yw 4 ardal sef Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru, De-ddwyrain Cymru a De-orllewin Cymru.
- Caniatadau Draenio Tir: A fydd caniatadau ar gyfer cyrsiau dŵr cyffredin yn dod yn ôl i CNC o'r awdurdodau lleol?

**8. Cynllun Corfforaethol CNC:** Mae'r cynllun tair blynedd yn destun ymgynghoriad ar y wefan hyd Ionawr 10 2014. Croesewir sylwadau o'r tu allan i CNC.

**9. Papur Gwyn Llywodraeth Cymru**

**9.1 Cynlluniau adnoddau naturiol**

- Rhoddodd HJ fraslun o baragraffau a gofynion. Mae polisi CNC yn gwneud dull integredig yn ofynnol.
- Bydd angen diffiniad cyfreithiol o adnoddau naturiol a rheoli adnoddau naturiol at ddibenion cynllunio.
- Bydd CNC yn ymateb fel corff cyhoeddus.
- Mae'r ddogfen yn destun ymgynghoriad rhwng Hydref 2013 ac Ionawr 2014.

**9.2 Rôl CGBLl yn y dyfodol (KR)**

- Mae Awdurdodau Lleol yn symud i gyfeiriadau gwahanol o ran gweithredu prosiectau tirwedd, ecosystem a bywyd gwyllt ar gyfer cyfleusterau adfer ynni.
- Mae Torfaen wedi adolygu ei CGBLl a bydd yn adeiladu fframwaith gyda chymunedau a chodi ymwybyddiaeth o'r newid yn yr hinsawdd, rheoli tir, coridorau nentydd a chynefinoedd cyfagos. Mae'r awdurdod wedi adlewyrchu camau gweithredu yn y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth rhwng 2003 a 2013.
- Dylai fod mwy o eglurder a chyfarwyddyd ar sut y dylai'r bartneriaeth fynd yn ei blaen.
- Mae Awdurdodau Lleol yn gwneud toriadau a gellid colli swyddi ym maes bioamrywiaeth. Nid oes adnoddau digonol i CGBLl.
- Mae angen amodau rheoli penodol i gydweithio gyda chymunedau, cynghori cymunedau a chefnogi gwirfoddolwyr. Gellid lanlwytho'r rhain i'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth..
- Ni chafodd y Grŵp Ecosystemau Dŵr Croyw adroddiad ar brosiect gorlifdir ac afonydd Gogledd-ddwyrain Cymru.

**Cam gweithredu:** **ALlJ** i anfon strategaeth Torfaen at Ogledd-ddwyrain Cymru.

**9.3 Gwefan Ecoleg Dŵr Croyw**

Heb ei drafod?

**10. Unrhyw fusnes arall**

**10.1 Cypermethrin**

- Mae DT wedi gofyn i'r Comisiwn Coedwigaeth cynt am wybodaeth am Cypermethrin ond nid yw wedi cael ateb. Bydd BS yn anfon gwybodaeth at DT a holl aelodau'r Grŵp Ecosystem Dŵr Croyw.
  **Cam gweithredu: BS** i anfon gwybodaeth at bawb.
- Bydd y rhanddirymiad sy'n caniatáu defnyddio cypermethrin mewn coetiroedd sydd wedi'u hardystio gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd yn dod i ben ym mis Mehefin 2014. Bydd CNC yn cael ei gynnwys mewn cais i barhau i'w ddefnyddio. Mae CNC yn cynnal adolygiad o'i ddefnydd yn y coetiroedd y mae'n eu rheoli.

**10.2 Cyllid y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr gan Dŵr Cymru**

Mae cyllid ar gael o hyd, ond caiff ei adolygu bob tri mis.

**Cam gweithredu: DT** i anfon diweddariad i wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

**10.3 Rheoliadau Llyswennod**

Mae ALlJ wedi awgrymu y dylid trafod hyn fel eitem agenda yn y cyfarfod nesaf.

**Cam gweithredu: HJ** i ddod o hyd i rywun priodol i roi cyflwyniad.

**10.4 Mynediad i Afonydd yng Nghymru**

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru weithdy gyda rhanddeiliaid ym mis Medi 2013. Dylai papur gwyrdd gael ei gyhoeddi'n ddiweddarach yn 2014.

**10.5 Gwefan Genweirio**

Mae'r wefan bellach yn weithredol (DR)

**11. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

**Gweithred: JB** i greu ffurflen Meet-o-matic gyda dyddiadau posibl.